CANLLAWIAU CYNLLUNIO (CYMRU)

NODYN CYNGOR TECHNEGOL (CYMRU) 10

# GORCHMYNION CADW COED

Y Swyddfa Gymreig



£2.50

Hydref 1997

Mae'r ddogfen hon yn un mewn cyfres o Nodiadau Cyngor Technegol (Cymru) (TANs) sy'n cydategu "Canllawiau Cynllunio (Cymru): Polisi Cynllunio".

Mae rhagor o wybodaeth ar gael oddi wrth yr Adran Gynllunio, Y Swyddfa Gymreig, Parc Cathays, Caerdydd, CF1 3NQ neu drwy ffonio (01222) 823585.

**Mae copïau pellach o'r nodyn hwn ar gael oddi wrth:**

Y Llyfrfa Oriel The Stationery Office
Heol Tŷ'r Brodyr, Caerdydd CF1 4AA
01222 395548 Ffacs 01222 384347

ISBN 0 7504 2265 3

© Ⓗ Hawlfraint y Goron 1997
Cyhoeddwyd Gyntaf 1997

ISBN 0-7504-2265-3

# Cynnwys

*Rhif y Paragraff*

**Cyflwyniad** .......... 1

**Cwmpas Gorchmynion Cadw Coed**

- Coed, Coetiroedd a Gwrychoedd .......... 5
- Tir y Goron .......... 8
- Buddiannau'r Awdurdod Coedwigaeth yng Nghymru .......... 10
- Tir yr Awdurdodau Lleol .......... 12
- Ardaloedd Cadwraeth .......... 13

**Ystyried yr angen am GCC** .......... 14

**Coed sydd wedi'u diogelu a datblygu** .......... 17

- Caniatâd Cynllunio .......... 20

**Gwaith y gellir ei wneud ar goed sydd wedi'u diogelu** .......... 21

- Rhwymedigaethau Statudol .......... 24
- Niwsans .......... 25
- Cynlluniau Gweithredu'r Awdurdod Coedwigaeth .......... 27
- Coed Ffrwythau .......... 28
- Esemptiadau Eraill .......... 29
- Trwyddedau Cwympo Coed .......... 32

**Gwneud a Chadarnhau Gorchmynion** .......... *Atodiad A*

## Cyflwyniad

1. Dylai'r Nodyn Cyngor Technegol (Cymru) (TAN) hwn gael ei ddarllen ar y cyd â 'Chanllawiau Cynllunio (Cymru): Polisi Cynllunio'. Dylai awdurdodau cynllunio lleol yng Nghymru gymryd Canllawiau Cynllunio, Nodiadau Cyngor Technegol a chylchlythyrau i ystyriaeth wrth baratoi cynlluniau datblygu. Gallant fod yn berthnasol i benderfyniadau ar geisiadau cynllunio unigol ac fe gânt eu cymryd i ystyriaeth gan yr Ysgrifennydd Gwladol a'i Arolygwyr wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio wedi'u galw i mewn ac apelau.

2. Mae'r dogfennau a restrir yn y golofn Cyfeiriad yn yr ymyl yn cynnig gwybodaeth fanylach a ddylai gael ei darllen ar y cyd â'r TAN.

(Mae'r Cyngor yng Nghylchlythyr 64/78 y Swyddfa Gymreig yn ddilys o hyd er y disodlir y cyfeiriadau at ddeddfwriaeth o dan Ddeddf 1990 ac nid yw'n cymryd newidiadau yn y gyfraith ers 1978 i ystyriaeth).

*Cyfeiriad*

***Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, Rhan VIII (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cynllunio ac Iawndal 1991, Adran 23)***

***Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Gorchmynion Cadw Coed) 1969. OS Rhif 1969/17 (fel y'i diwygiwyd gan OS Rhifau 1975/148, 1981/14 a 1988/963)***

***Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Gorchmynion Cadw Coed) (Diwygio) a (Coed mewn Ardaloedd Cadwraeth) (Achosion wedi'u Hesemptio) 1975. OS Rhif 1975/148***

***Cylchlythyr 64/78 y Swyddfa Gymreig, 'Trees and Forestry'***

3. Mae gan yr awdurdodau cynllunio lleol bŵer, er lles amwynder, i ddiogelu coed a choetiroedd drwy wneud Gorchmynion Cadw Coed (GCC). Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar yr awdurdodau cynllunio lleol i wneud darpariaeth ddigonol lle bo'n briodol i gadw ac i blannu coed wrth roi caniatâd cynllunio drwy osod amodau a/neu wneud GCC.

***Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, Adran 198***

4. Rhaid i GCC gael ei wneud ar ffurf (neu i raddau helaeth ar ffurf) y Gorchymyn Enghreifftiol. Ceir canllawiau ar y Gorchymyn Enghreifftiol a gweithdrefnau GCC yn Neddf 1990, yn y Rheoliadau ac yng Nghylchlythyr 64/78. Ceir crynodeb o'r canllawiau yn Atodiad y TAN hwn.

***Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, Adrannau 199 a 201***

***Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Gorchymyn Cadw Coed) 1969. OS Rhif 1969/17 (fel y'i diwygiwyd)***

## Cwmpas Gorchmynion Cadw Coed

### Coed, Coetiroedd a Gwrychoedd

5. Prif effaith GCC yw gwahardd torri, diwreiddio, tocio, brigdorri, difrodi bwriadol neu ddinistrio bwriadol ar goeden neu goed heb ganiatâd yr awdurdod cynllunio lleol. Nid yw'r termau 'coeden' a 'choetir' wedi'u diffinio yn y Ddeddf ac nid yw'r Ddeddf yn cyfyngu GCC i goed o ryw isafswm o ran eu maint ond at ddibenion y Ddeddf, mae'r Uchel Lys wedi dyfarnu mai unrhyw beth a gâi ei alw'n goeden fel rheol yw "coeden".

*Cyfeiriad*

6. Mae GCC sy'n gwahardd gwneud gwaith ar goed neu dorri coed o fewn ardal coetir hefyd, ym marn yr Ysgrifennydd Gwladol, yn diogelu coed sydd wedi'u plannu neu sy'n tyfu'n naturiol yn yr ardal honno ar ôl gwneud y GCC.

7. Ni all GCC fod yn gymwys i lwyni, prysgwydd neu wrychoedd. Er hynny, gellir gwneud GCC i ddiogelu coed mewn gwrychoedd neu hen wrych sydd wedi mynd yn llinell o goed. Daeth rheoliadau ar ddiogelu gwrychoedd pwysig i rym, ym Mehefin 1997.

*Deddf yr Amgylchedd 1995, Adran 97*
*Rheoliadau Gwrychoedd 1997. OS Rhif 1997/1160*

**Tir y Goron**

8. Dim ond gyda chaniatâd yr awdurdod priodol y gellir defnyddio GCC i ddiogelu coed ar dir y Goron. Mae darpariaeth yn y Ddeddf i wneud GCC ar dir y Goron wrth rag-weld trosglwyddo'r tir i fuddiannau preifat, er bod angen caniatâd blaenorol yr awdurdod priodol eto. Mae GCC o'r fath yn dod i rym dros dro cyn gynted ag y bo'r tir yn peidio â bod yn dir y Goron ac felly rhaid i'r awdurdod cynllunio lleol ei gadarnhau.

*Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, Adran 293 et seq*

9. Nid yw GCC ar dir y Goron yn rhwymo'r Goron, ond fel rheol bydd Adrannau o'r Llywodraeth yn ymgynghori â'r awdurdod cynllunio lleol cyn gwneud gwaith y byddai angen caniatâd ar ei gyfer fel arall.

**Buddiannau'r Awdurdod Coedwigaeth yng Nghymru**

10. Ceir cyfyngiadau ar wneud GCC ar dir y mae gan yr Awdurdod Coedwigaeth fuddiant ynddo. Os oes cyfamod cyflwyno coedwig eisoes mewn grym mewn perthynas â'r tir, neu os yw'r Awdurdod Coedwigaeth wedi rhoi grant neu fenthyciad mewn perthynas â'r tir, rhaid iddynt roi eu caniatâd cyn y gellir gwneud GCC.

*Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, Adran 200*

11. Wrth weithredu cynlluniau coetiroedd bydd yr Awdurdod Coedwigaeth yn rhoi sylw priodol i ystyriaethau amgylcheddol ac amwynderau ond bydd bob amser yn ymgynghori â'r awdurdod cynllunio lleol lle'r effeithir ar goed sydd wedi'u diogelu.

**Tir yr Awdurdodau Lleol**

12. Gall awdurdodau cynllunio lleol wneud GCC i ddiogelu coed ar dir sy'n perthyn iddynt. Lle maent yn bwriadu gwneud gwaith ar goed o'r fath mae'n ofynnol iddynt wneud cais am ganiatâd i'r Ysgrifennydd Gwladol. Er hynny, lle bo parti arall (e.e. tenant) yn dymuno gwneud gwaith ar goed sy'n perthyn i'r awdurdod lleol, fe gaiff yr awdurdod ddelio â'r cais.

*Rheoliadau Cyffredinol Cynllunio Gwlad a Thref 1992, Rheoliad 11. OS Rhif 1992/1492*

**Ardaloedd Cadwraeth**

13. Mae coed mewn ardaloedd cadwraeth yn dod o dan reolau tebyg i goed y mae GCC yn gymwys iddynt. Mae'n drosedd cwympo, tocio, brigdorri, diwreiddio neu ddifrodi neu ddinistrio coed o'r fath yn fwriadol heb rhoi hysbysiad i'r awdurdod cynllunio lleol a sicrhau ei ganiatâd, neu cyn i'r cyfnod o 6 wythnos ar ôl rhoi'r hysbysiad ddod i ben (gweler Atodiad paragraffau A32-33). Diben y gofyniad i roi 6 wythnos o rybudd i'r awdurdod cynllunio lleol yw rhoi cyfle i'r awdurdod ystyried gwneud GCC mewn perthynas â'r coed neu'r coetiroedd o dan sylw.

*Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, Adran 211 et seq*

*Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Gorchymyn Cadw Coed) (Diwygiad) a (Coed mewn Ardaloedd Cadwraeth) (Achosion Esempt) 1975. OS Rhif 1975/148*

## Ystyried yr angen am GCC

14. Gall awdurdod cynllunio lleol wneud GCC os bernir ei bod yn fuddiol gwneud darpariaeth ar gyfer cadw coed neu goetiroedd yn ei ardal er budd amwynder. Nid yw'r Ddeddf yn diffinio 'amwynder'.

*Cylchlythyr 64/78 y Swyddfa Gymreig, 'Trees and Forestry'*

*Cyfeiriad*

15. Dylid defnyddio GCC i ddiogelu coed a choetiroedd y byddai eu symud yn cael effaith sylweddol ar yr amgylchedd a'i fwynhad gan y cyhoedd. Dylai coed sydd wedi'u diogelu, neu ran ohonynt, fod yn weledig fel rheol o le cyhoeddus neu o nifer rhesymol o'r adeiladau cyfagos.

16. Er y gall coeden deilyngu ei diogelu ar sail amwynder, hwyrach na fydd yn fuddiol ei diogelu trwy gyfrwng GCC, er enghraifft lle mae coed o dan reolaeth coedyddiaeth dda neu lle nad oes fawr o berygl iddynt gael eu cwympo neu eu brigdorri etc. Ar y llaw arall, gall fod yn fuddiol gwneud GCC os yw'r awdurdod cynllunio lleol yn credu bod coeden sy'n bodloni'r meini prawf ym mharagraff 15 mewn perygl. Dylai'r awdurdodau adolygu eu GCC yn rheolaidd hefyd er mwyn dod o hyd i'r rhai y gellir eu hamrywio neu eu diddymu.

## Coed sydd wedi'u diogelu a datblygu

17. Dylai polisïau mewn cynlluniau datblygu gynnwys, lle bo'n briodol, fesurau i ddiogelu coed a darparu ar gyfer plannu coed a thirlunio.

18. Mae effaith cynigion cynllunio ar goed sydd wedi'u diogelu yn ystyriaeth gynllunio berthnasol. Dylai awdurdodau cynllunio lleol drafod goblygiadau cynnig gyda'r datblygydd a gallant fod o'r farn ei bod yn fuddiol gwneud GCC i ddiogelu coed ar dir cyn i gais cynllunio gael ei wneud. Gallant fod yn briodol ei gwneud yn ofynnol i geiswyr sy'n gofyn am ganiatâd cynllunio llawn ddarparu manylion am yr holl goed sy'n bodoli ar y safle, gan gynnwys faint y maent yn ymestyn a lleoliad y rhai sydd i'w cwympo. Cyn rhoi caniatâd cynllunio amlinellol, dylai'r awdurdod cynllunio lleol ystyried yr effaith y byddai'r caniatâd yn ei chael ar eu gallu i ddarparu wedyn ar gyfer diogelu a phlannu coed fel mater wrth gefn.

***Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, Adran 197***

19. Fel arall, gellir diogelu coed yn ystod gwaith datblygu trwy osod amodau mewn perthynas â choed sydd i'w cadw ond a allai fod mewn perygl yn ystod gwaith adeiladu. Mater i'r awdurdod cynllunio lleol yw penderfynu ar y ffordd orau o ddiogelu coed - drwy amod cynllunio neu GCC (neu'r ddau). Er hynny, nid yw'n rhesymol defnyddio amodau i sicrhau diogelwch tymor hir pan ellir defnyddio GCC. Gellir defnyddio GCC i ddiogelu a sicrhau coed newydd sydd i'w plannu er mwyn gwireddu amodau.

***Cylchlythyr 35/95 y Swyddfa Gymreig, "The Use of Conditions in Planning Permissions"***

### Caniatâd Cynllunio

20. Nid yw GCC yn ei gwneud yn ofynnol i berson sicrhau caniatâd yr awdurdod cynllunio lleol i gwympo neu i wneud gwaith ar goeden sydd yn 'angenrheidiol ar unwaith at ddibenion datblygiad a awdurdodwyd gan ... caniatâd cynllunio a roddwyd i gais a wnaed o dan Ran III o'r Ddeddf, neu y tybir ei fod wedi'i roi felly'. Os oes caniatâd cynllunio amlinellol wedi'i roi yn ddarostyngedig i amod bod rhaid sicrhau cymeradwyaeth yr awdurdod cynllunio lleol ar gyfer materion wrth gefn cyn i ddatblygiad ddechrau, ni ellir dweud bod gwaith ar goed yn angenrheidiol 'ar unwaith' at ddibenion yr esemptiad a bydd angen caniatâd ar gyfer y gwaith hwnnw. Byddai'n rhaid i unrhyw un a fyddai'n bwriadu adeiladu o dan hawliau datblygu a ganiateir sicrhau caniatâd yr awdurdod cynllunio lleol i gwympo coeden neu i wneud unrhyw waith arall ar goeden sy'n dod o dan GCC.

***Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Gorchymyn Cadw Coed) 1969, Atodlen 2 paragraff 3(c). OS Rhif 1969/17***

## Gwaith y gellir ei wneud ar goed sydd wedi'u diogelu

21. Nid yw GCC yn rhwystro neb rhag cwympo neu wneud gwaith ar goed sydd wedi marw, sy'n marw neu'n beryglus. Bernir bod yr esemptiad hwn yn caniatáu tynnu pren marw o goeden neu dynnu canghennau peryglus o goeden sydd fel arall yn ddiogel.

22. Nid yw bob amser yn hawdd penderfynu a yw coeden wedi marw, yn marw neu'n beryglus. Mewn perthynas â choed peryglus, mae'r Llysoedd wedi dyfarnu nad oes rhaid i'r bygythiad o berygl fod wedi digwydd ac nad yw'r esemptiad yn gymwys os yw'r perygl posibl hwnnw'n bell i ffwrdd, yn wan ac nad yw'n codi ar unwaith. Y sawl sy'n bwriadu cwympo'r goeden neu wneud y gwaith sy'n gorfod profi cyflwr y goeden.

# *Atodiad A*

## GWNEUD A CHADARNHAU GORCHMYNION

A1. Gall unrhyw berson a awdurdodwyd yn briodol mewn ysgrifen gan yr awdurdod cynllunio lleol gael mynediad i dir er mwyn ei archwilio mewn cysylltiad â gwneud neu gadarnhau GCC. Gall y perygl o gwympo coeden gyfiawnhau gwneud GCC ar unwaith. Cynghorir yr awdurdodau i esbonio i berchnogion tir pam y mae coed wedi'u diogelu.

A2. Rhaid i GCC fod ar ffurf (neu i raddau helaeth ar ffurf) y Gorchymyn Enghreifftiol. Nodir y Gorchymyn Enghreifftiol yn Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Gorchmynion Cadw Coed) 1969 (OS 1969/17). Rhaid nodi'r coed neu'r coetiroedd sydd i'w diogelu yn yr Atodlen gyntaf o'r GCC a rhaid cynnwys map yn dangos lleoliad pob coeden. Os oes unrhyw wahaniaeth o ran lleoliad, y map fydd yn penderfynu. Dylai'r map fod ar raddfa sy'n ei gwneud yn bosibl i adnabod y coed neu'r coetir yn glir. Mae'r Gorchymyn Enghreifftiol yn darparu y gellir nodi coed yn unigol, neu trwy gyfeirio at ardal, neu mewn grwpiau, neu fel coetiroedd, neu unrhyw gyfuniad o'r categorïau hyn.

A3. Dylai'r awdurdodau gofnodi mewn GCC, y nifer a'r rhywogaethau o goed unigol neu grwpiau sydd i'w diogelu (ac eithrio mewn perthynas â choetiroedd lle y dylai disgrifiad cyffredinol fod yn ddigonol), a'u lleoliadau. Gall yr awdurdodau gofnodi ar wahân hefyd ddefnydd presennol y tir, pwysigrwydd y coed fel cynefin bywyd gwyllt a pham y mae unrhyw goed i'w hepgor o'r GCC.

### Coed Unigol a Grwpiau o Goed

A4. Os yw coed yn teilyngu eu diogelu yn eu rhinwedd eu hunain dylid eu nodi fel rheol fel coed unigol yn y GCC. Dylid cadw'r categori grŵp ar gyfer coed sy'n teilyngu eu diogelu oherwydd eu heffaith a'u hansawdd fel grŵp.

### Coetiroedd ac Ardaloedd o Goed

A5. Dylid cofnodi a disgrifio ffin y coetir neu'r ardal yn gywir, mewn modd a fydd yn osgoi ansicrwydd os caiff coed yn agos at y ffin eu symud ymaith. Mae dosbarthiad ardal yn ddull arall o nodi coed unigol gwasgaredig. Caiff pob coeden o fewn ardal y Gorchymyn sy'n bresennol pan gaiff hwnnw ei wneud ei diogelu os nad yw'r Gorchymyn yn nodi'n benodol fel arall. Dim ond yn eithriadol y dylid defnyddio'r dosbarthiad ardal, ac wedyn dim ond nes y gellir ddosbarthu'r coed yn yr ardal gyda dosbarthiadau unigol neu grŵp.

### Cyfarwyddiadau Adran 201

A6. Mae Cyfarwyddyd o dan adran 201 o Ddeddf 1990 yn galluogi'r awdurdod cynllunio lleol i wneud GCC sy'n dod i rym ar unwaith. Nes y caiff ei gadarnhau, effaith dros dro yn unig sydd iddo. Os na chaiff GCC ei gadarnhau o fewn 6 mis i'r dyddiad y cafodd ei wneud, mae'r amddiffyn dros dro yn gorffen.

### Cwblhau'r GCC

A7. Dylai'r GCC gynnwys teitl; enw'r awdurdod cynllunio lleol; cyfeiriad, os yw'n briodol, at Gyfarwyddyd Adran 201 yn Erthygl 13 o'r GCC; gan gynnwys y dyddiad y daw'r GCC i rym dros dro; cyfeiriad yn yr Atodlen 1af, os yw'n briodol at unrhyw goed sydd i'w plannu yn unol ag amod cynllunio; a chynnwys pob un o'r tair atodlen a map.

## Y WEITHDREFN PAN GAIFF GCC EI WNEUD

A8. Mae Rheoliad 5 o Reoliadau 1969 yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod cynllunio lleol adneuo y GCC a'r map i'w harchwilio mewn man neu fannau sy'n gyfleus i'r lleoliad; cyflwyno copi o'r GCC, y map a hysbysiad esboniadol i berchnogion a deiliaid y tir yr effeithir arno; a chyflwyno copi o'r GCC, y map a rhestr o'r perchnogion a'r deiliaid yr effeithir arnynt i'r Gwarchodwr Coedwigoedd a'r Prisiwr Dosbarth.

A9. Rhaid i'r hysbysiad Rheoliad 5 ddweud y gellir gwrthwynebu neu gyflwyno sylwadau ar y GCC. Gall yr awdurdodau cynllunio lleol ddymuno cynnwys neu amgáu gyda'r hysbysiad esboniadol rywfaint o wybodaeth gyffredinol ynghylch gweithdrefnau GCC ac enw person cyswllt yr awdurdod. Gellir cyflwyno'r GCC â llaw, neu trwy adael y dogfennau neu eu cyflwyno trwy lythyr cofrestredig rhag-daledig neu ddosbarthiad wedi'i gofnodi i gartref arferol neu gartref hysbys diwethaf y perchennog/deiliad. Mae Adran 329 o Ddeddf 1990 yn gwneud darpariaeth hefyd ar gyfer achosion lle na ellir dod o hyd i enw'r perchennog neu'r deiliad.

### Cyhoeddusrwydd

A10. Nid yw'n ofynnol i'r awdurdod cynllunio lleol anfon copi o'r GCC i drigolion, awdurdodau na grwpiau lleol nac arddangos hysbysiad ar y safle ond hwyrach y byddant yn dymuno gwneud hynny.

**Gwrthwynebu neu Gyflwyno Sylwadau**

A11. Rhaid gwneud gwrthwynebiad neu gyflwyno sylwadau mewn ysgrifen i'r awdurdod cynllunio lleol gan bennu'r coed, y grwpiau o goed neu'r coetiroedd y mae'n ymwneud ag ef, a datgan ar ba sail y'i gwneir. Rhaid iddo ddod i law o fewn 28 diwrnod ar ôl dyddiad cyflwyno'r hysbysiad esboniadol.

**Ystyried Gwrthwynebiadau neu Sylwadau**

A12. Rhaid i wrthwynebiadau a sylwadau gael eu cymryd i ystyriaeth gan yr awdurdod cynllunio lleol cyn penderfynu a ddylid cadarnhau GCC. Dylai'r rhai sy'n codi materion technegol gael eu hystyried gan dyfwr coed. Gall trafodaeth rhwng yr awdurdod cynllunio lleol a gwrthwynebydd arwain at dynnu'r gwrthwynebiad yn ôl.

**Cadarnhau'r GCC**

A13. Gellir cadarnhau GCC heb ei ddiwygio, neu'n amodol ar y cyfryw ag y cred yr awdurdod eu bod yn fanteisiol, neu gellir peidio â chadarnhau'r GCC. Bernir bod y cyfle i'r awdurdod cynllunio lleol ddiwygio GCC i hepgor rhai coed neu goetiroedd o'r GCC a gadarnhawyd, neu gywiro camgymeriadau yn y Gorchymyn a wnaed. Cynghorir yr awdurdod i gynnal asesiad amwynderau, yn ddelfrydol cyn gwneud GCC ac yn sicr cyn ei gadarnhau, ac i gofnodi penderfyniadau i gadarnhau.

A14. Cyn gynted â phosibl ar ôl gwneud penderfyniad ynghylch cadarnhau GCC neu beidio, rhaid i'r awdurdod cynllunio lleol hysbysu'r holl bartïon yr effeithir arnynt, y Gwarchodwr Coedwigoedd a'r Prisiwr Dosbarth am eu penderfyniad. Os caiff y GCC ei gadarnhau yn amodol ar ddiwygiadau, rhaid i'r awdurdod cynllunio lleol hefyd anfon copi o'r GCC a'r map diwygiedig at y personau hynny.

A15. Dylai'r awdurdodau roi eu rhesymau am y penderfyniad, y dyddiad y cafodd ei wneud a nodi bod yna hawl i'w herio trwy'r Uchel Lys o fewn 6 wythnos i'r penderfyniad.

**Herio'r GCC**

A16. Nid oes hawl i apelio at yr Ysgrifennydd Gwladol yn erbyn GCC. Gall person sydd wedi'i dramgwyddo wneud cais i'r Uchel Lys ar y sail nad yw'r GCC o fewn pwerau'r Ddeddf neu na chydymffurfiwyd â gofynion y Ddeddf neu Rheoliadau 1969. Gall yr Uchel Lys ddiddymu'r GCC, neu atal ei weithredu, yn gyfan gwbl neu'n rhannol.

## AMRYWIO A DIDDYMU GORCHMYNION CADW COED

A17. Gall awdurdod cynllunio lleol orchymyn diddymu neu amrywio GCC. Dylid dilyn yr un gweithdrefnau ag wrth wneud a chadarnhau GCC wrth amrywio neu ddiddymu GCC. Gall awdurdod ddymuno diddymu GCC ac ar yr un pryd wneud un newydd yn ei le. Dylai'r awdurdodau sicrhau bod y dyddiad y daw'r GCC newydd i rym yn cyd-fynd â'r dyddiad y cafodd yr hen GCC ei ddiddymu. Dylai'r awdurdodau ddefnyddio'u pwerau amrywio yn benodol mewn perthynas ag ardaloedd gorchmynion (gweler paragraff A5 uchod).

## GWNEUD CAIS AM WAITH AR GOED SYDD WEDI'U DIOGELU

A18. Rhaid gwneud cais i gwympo neu i wneud gwaith ar goeden sydd wedi'i diogelu mewn ysgrifen gan ddatgan y rhesymau dros ei wneud a phennu pa goed y mae'n berthnasol iddynt a'r union weithrediadau y gofynnir am ganiatâd ar eu cyfer. Byddai un cais yn dderbyniol am amrywiol weithfeydd ar yr un goeden neu ar nifer o goed neu ar gyfer rhaglen o waith dros gyfnod o amser. Mae'n ofynnol i'r awdurdod cynllunio lleol gadw cofrestr o'r holl geisiadau am ganiatâd; rhaid iddi fod ar gael i'w harchwilio ar bob adeg resymol.

A19. Dylid ymweld â'r safle i ystyried y gwaith arfaethedig ac i ganiatáu ffurfio barn ynglŷn ag a ellir cyfiawnhau'r gwaith yng nghyd-destun gwerth y coed o safbwynt amwynder.

A20. Ni ddylai'r awdurdodau roi caniatâd a fydd yn newid yn sylweddol ar y gwaith y gwnaethpwyd cais ar ei gyfer ond fe allant roi caniatâd am lai o waith nag y gwnaethpwyd cais ar ei gyfer. Nid yw'r ddeddfwriaeth yn cyfyngu pŵer awdurdod yn benodol ynglŷn â'r math o amodau y gallant eu gosod wrth roi caniatâd ond dylai'r amodau ymwneud â'r gwaith a awdurdodwyd; dylent fod yn fanwl a dylent fod yn orfodadwy. Yn gyffredin, maent yn gysylltiedig â phlannu coed newydd, cyfnod penodedig pan fydd y caniatâd yn ddilys a safon y gwaith a awdurdodwyd (h.y. y dylai gael ei gyflawni gan dyfwr coed neu gan berson proffesiynol â chymwysterau tebyg).

# *Atodiad A*

A43. At ei gilydd, caiff apelau gorfodi eu trafod yn yr un modd ag apelau yn erbyn penderfyniadau awdurdodau ar geisiadau am ganiatâd. Gall yr Ysgrifennydd Gwladol gywiro unrhyw nam, gwall, neu gamddisgrifiad yn yr hysbysiad neu amrywio unrhyw un o'i ofynion. Nid yw'r pŵer hwn yn ymestyn i gywiro hysbysiad sydd mor sylfaenol wallus fel bod rhaid ei ddiddymu. Gellir dyfarnu costau mewn achosion a drafodwyd trwy gyfrwng sylwadau ysgrifenedig neu drwy wrandawiad neu ymchwiliad cyhoeddus.

A44. Gall yr apelydd neu'r awdurdod cynllunio lleol apelio i'r Uchel Lys yn erbyn penderfyniad yr Ysgrifennydd Gwladol ond cyfyngir pŵer y Llys i gyfeirio'r mater yn ôl at yr Ysgrifennydd Gwladol a fydd, yng ngoleuni dyfarniad y Llys, yn ailarchwilio'i benderfyniad.

## GWAHARDDEBION

A45. Gall awdurdod wneud cais i'r Uchel Lys neu i'r Llys Sirol am waharddeb i atal trosedd wirioneddol neu drosedd ddealledig o dan GCC. Gall awdurdodau wneud cais am waharddeb p'un a ydynt wedi defnyddio, neu'n bwriadu defnyddio, eu pwerau gorfodi eraill o dan y Ddeddf ai peidio. Gall y Llys ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod dalu iawndal os yw'r cais am waharddeb yn methu.

A46. Mae'r Llys yn annhebygol o roi gwaharddeb yn erbyn person a enwir oni bai ei bod yn ymddangos bod yr awdurdod cynllunio lleol wedi rhoi sylw i'r ystyriaethau perthnasol wrth benderfynu ei bod yn angenrheidiol neu'n fanteisiol gwneud cais am waharddeb, bod ganddynt dystiolaeth glir fod trosedd eisoes wedi digwydd neu'n debygol o ddigwydd, a bod rhyddhad drwy gyfrwng gwaharddeb yn rhwymedi priodol yn amgylchiadau'r achos.

## IAWNDAL

A47. Gall GCC wneud darpariaeth ar gyfer talu iawndal gan yr awdurdod mewn perthynas â cholled neu ddifrod a achoswyd yn sgil penderfyniad i wrthod caniatâd neu benderfyniad i roi caniatâd yn ddarostyngedig i amodau. Mae'r Gorchymyn Enghreifftiol yn gwneud darpariaethau o'r fath yn Erthygl 9. Mae gan unrhyw berson sy'n dioddef colled neu ddifrod hawl i wneud cais am iawndal oni bai bod tystysgrif wedi'i rhoi o dan Erthygl 5 y Gorchymyn Enghreifftiol, y disgrifir ei heffaith ym mharagraff A22 uchod. Caiff unrhyw gais am iawndal lle ceir anghydfod ei benderfynu gan y Tribiwnlys Tiroedd.

A48. Lle mae awdurdod cynllunio lleol yn rhoi cyfarwyddyd o dan Erthygl 6 o'r Gorchymyn Enghreifftiol yn ei gwneud yn ofynnol ailblannu coetir a gwympwyd o dan GCC, a bod yr Awdurdod Coedwigaeth yn penderfynu peidio â rhoi grant neu fenthyciad mewn perthynas â'r ailblannu, mae'r awdurdod yn atebol am dalu iawndal mewn perthynas ag unrhyw golled neu ddifrod a achoswyd neu a dynnwyd o ganlyniad i gydymffurfio â'r cyfarwyddyd.